# Gwahardd fêps untro

Mae Llywodraeth Cymru am ddiogelu'r amgylchedd, Cymru a'r blaned. Rydym ni eisoes wedi cymryd camau i atal sbwriel, ond rydym ni eisiau gwneud mwy!


Rydym ni am dorri i lawr ar y difrod mae gwneud a thaflu fêps untro yn ei wneud i'r amgylchedd, bywyd gwyllt, ac iechyd pobl. Rydym ni hefyd am gyflymu'r newid mewn ymddygiad cwsmeriaid tuag at opsiynau y gellir eu hailddefnyddio ac sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

**O 1 Mehefin 2025 bydd cyfraith newydd yn atal siopau gwerthu fêps untro.**



**Mae fêps untro:**

- yn gallu cynnwys plastig
- yn cynnwys batri sy'n cynhesu hylif mae pobl yn anadlu i mewn
- yn dod mewn lliwiau llachar a gwahanol flasau
- yn gallu cynnwys nicotin (mae'r cyfan wedi'u gwahardd p'un a ydynt yn cynnwys nicotin ai peidio)
- **yn ddrwg i'r amgylchedd!**



Maen nhw'n torri i lawr i ficroblastigau.

Maen nhw'n anodd eu hailgylchu felly yn cyrraedd tomenni gwastraff.

Mae batris rhai fêps yn dal tân pan fyddant yn cael eu difrodi neu eu malu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae bron
**i 5 miliwn**
**o fêps untro yn cael eu taflu i ffwrdd yr wythnos. Bydd eu gwahardd yn gwneud gwahaniaeth mawr!!**

## O 1 Mehefin 2025:

**Ni all siopau werthu fêps untro.**

**Ni all busnesau a phobl roi fêps untro i ffwrdd.**

**Os byddant yn gwneud hynny, byddant yn torri'r gyfraith a byddant yn cael dirwy neu garchar.**

## Beth ydych chi'n ei feddwl?

Atebwch y cwestiwn:

ymateb.gov.wales/s/80T311

